Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Powys

Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru

Mid Wales Education Partners

DRAFT

Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru
Mid Wales Education Partners

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Powys

Cynnwys / Contents

Cyflwyniad ~ Introduction 3

Cyd-destun ~ Context 4

Cynnydd ers ein creu Medi 2021 ~ Progress since inception in September 2021 6

Meysyddd Blaenoriaeth ar y cyd 2022-2023 ~ Shared improvement priority areas for 2022-2023 7

Cynlluniau'r Blaenoriaethau ~ Priority area plans 7

Trefniadau Darparu ~ Delivery arrangements 8

Llywodraethiant a dosrannu Cyllid ~ Governance and distribution of Funding 9

Maes Blaenoriaeth 1 ~ Priority Area 1 11

Maes Blaenoriaeth 2 ~ Priority Area 2 14

Maes Blaenoriaeth 3 ~ Priority Area 3 17

Maes Blaenoriaeth 4 ~ Priority Area 4 20

Maes Blaenoriaeth 5 ~ Priority Area 5 24

Cyflwyniad ~ Introduction

Yn flaenorol, roedd Awdurdodau Lleol Ceredigion a Phowys yn cael eu gwasanaethu gan ranbarth ERW ar gyfer swyddogaethau gwelliant ysgolion. Mae ôl troed ERW bellach wedi'i ddiwygio i adlewyrchu a chyd-fynd yn ddaearyddol â strwythur y Cydbwyllgor Corfforaethol ac Ardaloedd y Fargen Dwf. Mae Partneriaeth bellach yn gwasanaethu'r rhan fwyaf o'r Awdurdodau Lleol cyfansoddol o fewn Bargen Twf Bae Abertawe, tra bod Ceredigion a Phowys, fel Awdurdodau Lleol Cyfansoddol Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru yn cydweithio i wasanaethu anghenion ysgolion o fewn ardal Bargen Twf Canolbarth Cymru.

Sefydlodd Ceredigion a Phowys ddull cyfunol o ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion a ffurfiwyd Partneriaeth Addysg Canolbarth Cymru i gefnogi meysydd blaenoriaeth ym Medi 2021. Yn Ionawr 2022, arwyddwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gan y ddau Gabinet i danategu gwaith y Bartneriaeth. Amlinellir trefniadau atebolrwydd a llywodraethu clir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, gan gynnwys cynrychioliaeth Canolbarth Cymru o fewn trefniadau cenedlaethol a thraws-ranbarthol.

Ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd ~ Our Vision and Values:

Fel Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru byddwn yn darparu ysgolion â gwasanaeth gwella rhagorol a chwbl integredig. Bydd ein gwaith o safon rhagorol a bydd yn sicrhau arloesedd a thrylwyredd wrth ddarparu gwasanaethau gwella cynaliadwy.

Byddwn yn:

- Cefnogol a chydweithredol yn ein hymagwedd
- Creadigol, hyblyg a gonest yn ein ffyrdd o weithio
- Effeithiol ac effeithlon fel partneriaeth

Ein nodau ydy ~ Our aims are:

- cefnogi arweinwyr a'u datblygiad proffesiynol a datblygu amrywiaeth eang o arweinwyr effeithiol yn y dyfodol i ddiwallu anghenion Canolbarth Cymru;
- cefnogi athrawon a chynorthwywyr addysgu gyda chynnig dysgu proffesiynol cynhwysfawr, pwrpasol, safonol ac effeithiol, sy'n hygyrch i aelodau staff, ac yn cydfynd â'u meysydd blaenoriaeth lleol;
- cefnogi ysgolion wrth iddynt adfer yn dilyn y pandemig i gael effaith gadarnhaol ar lesiant staff a disgyblion;
- cefnogi ysgolion i ddatblygu cynnig cwricwlwm sy'n sicrhau cynnydd, a'r pedwar diben sy'n greiddiol i hynny;
- cefnogi ysgolion i wella ansawdd y dysgu a'r addysgu'n barhaus i gael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd bywyd disgyblion;
- sicrhau cefnogaeth, her ac ymyrraeth drylwyr o ansawdd uchel i ysgolion;

- datblygu rhwydweithiau cefnogi pwrpasol ac effeithiol rhwng ysgolion a hwyluso system hunanwella;
- darparu cymorth pwrpasol i ysgolion yn unol â meysydd blaenoriaeth Datblygu Ysgolion;
- datblygu cyd-ddealltwriaeth o amddifadedd gwledig a thegwch i sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfleoedd i lwyddo, beth bynnag fo'i heriau cymdeithasol;
- sicrhau bod Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru'n gweithio'n effeithlon ac yn ymdrechu i sicrhau darbodion maint; a
- gweithio'n effeithiol ag amrywiaeth eang o bartneriaid priodol i ddarparu gwasanaeth sy'n ymateb i anghenion ein hysgolion, blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol, ac sy'n cyd-fynd yn strategol â 'Tyfu Canolbarth Cymru' a Bwrdd y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol.

Cyd-destun ~ Context

Nifer Ysgolion					
	Cynradd	Uwchradd	Pob oedran	Arbennig	UCD
Ceredigion	36	4	3	0	1
Powys	76	9	2	3	2

Nifer Disgyblion		Nifer Staff Addysgu		Nifer Staff Cymorth	
Ceredigion	Powys	Ceredigion	Powys	Ceredigion	Powys
9,561	17,178	1,070	1,115	509	1,079

Data Cefndir Cyd-destun			
Data	Powys	Ceredigion	Ffynhonnell
Canran o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn y 20% uchaf o'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru.	6%	4%	MALIC 2019
Canran o bobl oedran gweithio (16-64 oed) sy'n economaidd anweithgar.	20.6%	24.3%	StatsCymru Cymru: 24.4%

Plant o dan 16 oed sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel cymharol.	4,324 (20.4%)	2,368 (21.8%)	Llywodraeth y DU - Ystadegau Swyddogol Blynyddol
Plant o dan 16 oed sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel absoliwt.	3,207 (15.2%)	1,741 (16.0%)	LLywodraeth y DU - Ystadegau Swyddogol Blynyddol
Disgyblion sy'n gymwys am Brydau Ysgol am Ddim (PyDd) / Amddiffyn wrth Bontio (AB)	PyDd 17.46% AB 15.7%	PyDd 13.8% AB 17.0%	CYBLD 2021 Cymru PyDd 20.9% Cymru AB 22.8%
Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	3,764 (21.8%)	2,433 (25.1%)	CYBLD 2021 Cymru 92,688 (19.5%)
Disgyblion â Saesneg / Cymraeg fel Iaith Arall (camau A-E)	590 (3.6%)	485 (5.0%)	CYBLD 2021 Cymru 36,250 (7.6%)
Disgyblion sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf (B1-B11)	2,349 / 14,290 = 16.4%	5,444 / 7,615 = 71.5%	CYBLD 2021 StatsCymru Cymru 79,304 / 379,730 = 20.9%
Nifer disgyblion oedran ysgol gorfodol sy'n cael eu Haddysgu Gartref (Addysg Ddewisol yn y Cartref)	227 Cyfradd fesul 1,000 = 15.6	253 Cyfradd fesul 1,000 = 32.1	CYBLD 2021 Cymru 4,022 Cyfradd fesul 1,000 = 10.4

Maes	Ceredigion	Powys	Cymru
Amser teithio dwyffordd **cyhoeddus** cyfartalog i gyfleuster chwaraeon (munudau)	95	112	55
Amser teithio dwyffordd **cyhoeddus** cyfartalog i ysgol uwchradd (munudau)	88	103	52
Amser teithio dwyffordd **preifat** cyfartalog i ysgol uwchradd (munudau)	17	16	11

Amser teithio dwyffordd **cyhoeddus** cyfartalog i siop fwyd (munudau)	64	72	32
Tebygolrwydd tai o ansawdd gwael (%)	30.4%	25.4%	19.7%
Sgôr agosrwydd at fannau gwyrdd hygyrch (% o gartrefi)	55.4%	63.2%	77.0%
Dim band eang ar gael ar 30Mb yr eiliad	19.3%	21.2%	6.9%

Cynnydd ers ein creu Medi 2021 ~ Progress since inception in September 2021

Peidiodd Awdurdod Lleol Ceredigion â bod yn bartner yn ERW ym Mawrth 2021, gyda Phowys yn dod â'i chysylltiad ag ERW i ben ym Medi 2021. Felly ffurfiwyd y Bartneriaeth Addysg Canolbarth Cymru newydd ym Medi 2021, ac fe'i hategwyd gan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn Ionawr 2022. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn nodi'n glir y meysydd gweithio ar draws Partneriaeth Canolbarth Cymru, ac o ganlynaid mae lefel dda o ddealltwriaeth o feysydd blaenoriaeth ar y cyd.

Mae uwch swyddogion y ddau Awdurdod Lleol wedi gweithio gyda'i gilydd yn gadarnhaol a chyda lefel uchel o ymddiriedaeth a hyder i adeiladu'r bartneriaeth newydd. Mae cyfarfodydd rheolaidd wedi meithrin cydweithio llwyddiannus rhwng swyddogion ar bob lefel, gyda phrotocolau cryf ar waith i sicrhau llif gwybodaeth rhwng swyddogion perthnasol.

Treuliwyd amser sylweddol yn ystod Tymor yr Hydref yn cael mynediad at, a bod yn rhan o raglenni a thrafodaethau traws-gonsortia. Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn allweddol o ran sicrhau bod Partneriaeth Canolbarth Cymru yn cael ei chydnabod a'i bod yn rhan o bob trafodaeth genedlaethol. Erbyn Ionawr 2022, roedd gan swyddogion Partneriaeth Addysg Canolbarth Cymru gynrychiolaeth lawn mewn gweithgareddau traws-ranbarthol.

Ers Medi 2021 mae Partneriaeth Canolbarth Cymru wedi llwyddo i:

- Sefydlu dulliau llywodraethu a chyfathrebu'r endid newydd mewn ffordd bositif ar draws y ddau Awdurdod Lleol
- Sefydlu perthnasoedd ac arferion gwaith rhagorol ymhlith swyddogion ar bob lefel, a chynnal y perthnasoedd gwaith cryf iawn a oedd eisoes yn bodoli gydag ysgolion
- Sicrhau penodiadau ar gyfer swyddi allweddol gyda rolau, cyfrifoldebau a gweithredoedd clir

- Sicrhau cynnig dysgu proffesiynol rhagorol i gefnogi'r cwricwlwm mewn modd cyffredinol a modd sydd wedi'i deilwra
- Sicrhau, erbyn Ionawr 2022, mynediad llawn at amrywiaeth eang o raglenni arweinyddiaeth
- Sicrhau, erbyn Ionawr 2022, mynediad llawn at raglenni i gefnogi datblygiad proffesiynol Cynorthwywyr Addysgu
- Sicrhau cefnogaeth gref i Athrawon Newydd Gymhwyso a staff yn ystod camau Datblygiad Gyrfa Cynnar
- Sicrhau cymorth o ansawdd rhagorol i ddysgu o bell yn ystod cyfnodau pan fydd ysgolion ar gau oherwydd Covid-19
- Sicrhau effeithlonrwydd drwy weithio a chaffael ar y cyd.

Meysyddd Blaenoriaeth ar y cyd 2022-2023 ~ Shared improvement priority areas for 2022-2023

Yn unol â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, ffocws y meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwella a rennir ar draws Partneriaeth Addysg Canolbarth Cymru fydd:

- Datblygu'r cwricwlwm
- Llwybrau Arweinyddiaeth
- Cefnogaeth i Athrawon Newydd gymhwyso a Gyrfaoedd Cynnar
- Llwybr Dysgu Cynorthwywyr Addysgu
- Amddifadedd Gwledig a Thegwch

Cynlluniau'r Blaenoriaethau ~ Priority area plans

Bydd Partneriaeth Addysg Canolbarth Cymru yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol yn 2022-23, sef:

Blaenoriaeth 1:

Sicrhau bod ysgolion yn hyderus wrth roi Cwricwlwm i Gymru ar waith o Fedi 2022 ymlaen, a pharhau i ganolbwyntio ar wella'r dysgu ac addysgu

Blaenoriaeth 2:

Cefnogi a datblygu gweithwyr addysg proffesiynol rhagorol

Blaenoriaeth 3:

Datblygu a rhoi strategaeth degwch ar waith, a chefnogi lles ac anghenion emosiynol disgyblion ac ymarferwyr

Blaenoriaeth 4:

Sicrhau bod trefniadau cynorthwyo a gwella ysgolion yn glir, ac arwain ysgolion i barhau i ddatblygu fel sefydliadau dysgu sy'n rhoi'r trefniadau gwella, gwerthuso ac atebolrwydd diwygiedig ar waith

Blaenoriaeth 5:

Sicrhau trefniadau mewnol effeithlon, a chyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid

Trefniadau Darparu ~ Delivery arrangements

Er y bydd ein Model Cyflawni'n sicrhau bod pob un o swyddogaethau'r Model Cenedlaethol yn cael eu cyflawni i safon uchel, bydd ein Model Cyflawni hefyd yn sicrhau integreiddiad llwyr pob agwedd ar sicrhau gwelliant ysgolion yn y modd ehangaf a mwyaf effeithiol.

Bydd y Model Cyflawni'n seiliedig ar bedwar amcan galluogi 'Cenhadaeth ein Cenedl', sef:

i. Dysgu Proffesiynol
ii. Arweinyddiaeth
iii. Tegwch, rhagoriaeth a lles
iv. Gwerthuso, gwelliant ac atebolrwydd

Bydd deiliaid swyddi allweddol o fewn meysydd blaenoriaeth yn cydweithio i ddarparu blaenoriaethau allweddol y cynllun hwn, sef:

- Diwygio'r cwricwlwm
- Arweinyddiaeth
- Dysgu proffesiynol Cynorthwywyr Addysgu
- Tegwch a strategaeth wledig

Bydd Awdurdodau Lleol Ceredigion a Phowys yn parhau i gynnal tîm craidd o staff cymorth a fydd yn gweithio ar y cyd ac yn:

- adnabod ein hysgolion yn dda, yn cydnabod eu cyd-destunau amrywiol ac yn parhau i ddatblygu arferion gwaith rhagorol;
- canolbwyntio ar sicrhau'r canlyniadau gorau i ddysgwyr bob amser, o fewn amgylchedd ysgol cynhwysol, tra'n sicrhau bod plant a phobl ifanc Ceredigion a Phowys yn ddysgwyr uchelgeisiol sy'n unigolion iach a hyderus, yn gyfranwyr mentrus ac yn ddinasyddion moesegol a gwybodus;

- cefnogi arweinwyr i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella, sicrhau ansawdd a sicrhau bod gwelliannau yn cael eu cynllunio, eu gweithredu, eu gwreiddio a'u cynnal yn dda;
- hwyluso cynnig dysgu proffesiynol rhagorol drwy'r llwybr proffesiynol cyfan, a fydd yn canolbwyntio ar addysgu, dysgu ac arweinyddiaeth ar bob lefel;
- sicrhau arfer myfyriol, ac ymgysylltu ag ymchwil ac ymholi;
- gwreiddio diwylliant o hyfforddi a mentora ar bob lefel mewn ysgolion;
- datblygu dull cydweithredol o wella a hwyluso cymunedau dysgu proffesiynol at ddibenion datblygu a chyd-adeiladu, gyda'r nod o weithio tuag at system hunanwella; ac
- adnabod a dysgu gan y gorau ar draws Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru a'r gymuned addysg ehangach, a broceru partneriaethau penodol a pherthnasol ar gyfer ein hysgolion.

Bydd ysgolion yn cael eu cefnogi i gydweithio ar feysydd blaenoriaeth ar y cyd a datblygu egwyddorion Ysgolion fel Sefydliadau Dysgu, drwy rwydweithiau a chadwyni *a* sefydlir i hwyluso dull cydweithredol o wella ysgolion.

Llywodraethiant a dosrannu Cyllid ~ Governance and distribution of Funding

Mae Partneriaeth Addysg Canolbarth Cymru yn cael ei llywodraethu gan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n amlinellu rolau, cyfrifoldebau, atebolrwydd a dulliau llywodraethu.

Mae yna gyswllt rhwng Cynllun Busnes 2022-23 â Chynlluniau Busnes unigol Awdurdodau Lleol Powys a Cheredigion, ac mae hyn yn sicrhau cyd-drefnu rhwng meysydd blaenoriaeth a rennir, ac elfennau ehangach gwaith cefnogi a gwella ysgolion.

Mae Ceredigion a Phowys yn cynnal eu tîm craidd o staff gwella ysgolion, megis Cynghorwyr Cymorth Ysgolion, arweinwyr pwnc, swyddogion gweinyddol a chyllid o gyllideb graidd yr Awdurdod Addysg Lleol. Mae pob grant, felly, yn cynnig ychwanegedd o ran capasiti a gall dargedu gweithgareddau maes blaenoriaeth penodol.

Sefydlir grŵp cyfeirio Penaethiaid Partneriaeth Addysg Canolbarth Cymru yn ystod Tymor yr Haf 2022.

Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru
Mid Wales Education Partners

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Powys

Maes Blanoriaeth 1 ~ Priority Area 1

Maes Blaenoriaeth 1 Priority Area 1	Sicrhau bod ysgolion yn hyderus wrth weithredu Cwricwlwm i Gymru o Fedi 2022 ymlaen, ac yn parhau i ffocysu ar wella dysgu ac addysgu. Ensure that schools are confident in implementing Curriculum for Wales from September 2022 onwards, and continue to focus on improving teaching and learning.	
Cenhadaeth ein Cenedl Our National Mission	1. Cwricwlwm trawsnewidiol 2. Asesu, gwerthuso ac atebolrwydd 3. Proffesiwn addysg o safon uchel 4. Arweinwyr sy'n ysbrydoli 1. Transformational curriculum 2. assessment, evaluation and accountability 3. High quality education profession 4. Inspirational leaders	
Cyswllt â chynlluniau busnes lleol Link to local business plans	**Ceredigion:** Lefel 2 Gwella Ysgolion Lefel 3 Cwricwlwm ac Addysgeg.	**Powys:** Cynllun Busnes Integredig y Gwasanaeth Addysg 3a:13 Gweithredu a chyflawni ein cynllun i 'Adeiladu Capasiti i Wella Ysgolion a Darparu Cenhedaeth ein Cenedl ar gyfer Addysg' yn effeithiol.

Beth fydd ein gweithredoedd? What actions will we take?	Sut fyddwn ni'n arfarnu effaith? How will we evaluate impact?
Gweithio fel partneriaeth i ddarparu pob ysgol a lleoliad â mynediad at raglenni ac adnoddau dysgu proffesiynol cenedlaethol a rhanbarthol, er mwyn gallu rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith, gan gynnwys cymryd rhan mewn sgyrsiau cenedlaethol.	Monitro presenoldeb ac ymgysylltiad â chyfleoedd dysgu proffesiynol 'byw'.
Gweithio fel partneriaeth i ddarparu cymorth pwrpasol i ysgolion a lleoliadau i ddatblygu a dylunio cwricwla sy'n cynnwys dealltwriaeth ddyfnach o asesu a dilyniant	Defnyddio dadansoddeg ddigidol i fonitro'r defnydd o adnoddau asyncronaidd, gan gynnwys nifer yr 'ymweliadau' ag adnoddau penodol.
Gweithio fel partneriaeth i wella dysgu ac addysgu drwy ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o addysgeg, i wella canlyniadau i bob dysgwr gan gynnwys rhai ag anghenion dysgu ychwanegol	Gwerthuso effaith dysgu proffesiynol gan ddefnyddio dull cadarn, seiliedig ar ymchwil e.e model hunanwerthuso Kirkpatrick
Gweithio fel partneriaeth i gynorthwyo lleoliadau i wreiddio'r cwricwlwm meithrin nas cynhelir mewn modd effeithiol.	Triongli effaith dysgu proffesiynol gydag ymweliad cynghori i wella ysgol.
Gweithio fel partneriaeth i gynorthwyo pob ysgol a lleoliad i fod yn ymarferwyr myfyriol sy'n cael eu llywio gan ymchwil, trwy ddefnyddio a chynhyrchu ymchwil. Bydd canlyniadau ymholiadau yn cael eu lledaenu ar bob lefel ar draws y bartneriaeth.	Monitro Cynlluniau Datblygu Ysgolion i sicrhau bod targedau priodol yn cael eu gosod a'u cyrraedd.

Gweithio fel partneriaeth i gynorthwyo i weithredu strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol gan gynnwys Cynlluniau Strategol Cymraeg Mewn Addysg. Sicrhau bod diffiniad iaith yr ysgol yn glir ac wedi'i gytuno gyda'r corff llywodraethu.	Darparu cyfleoedd rheolaidd i rannu gwybodaeth rhwng cynghorwyr gwella ysgolion a thima dysgu proffesiynol
Gweithio fel partneriaeth i godi safonau yn y sgiliau trawscwricwlaidd statudol - llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, a'r elfennau gorfodol - Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh)	Gwerthuso data ac adborth a ddarperir gan rwydweithiau ymarferwyr sy'n ymwneud â gwaith datblygu cwricwlwm ar y cyd
Gweithio fel partneriaeth i sicrhau bod yna ddealltwriaeth ddofn o'r themâu trawsbynciol a'r sgiliau hanfodol a'u bod yn cael eu gweithredu, gan gynnwys CGM, hawliau dynol, amrywiaeth, gyrfaoedd a phrofiadau sy'n ymwneud â gwaith a chyd-destunau lleol a rhyngwladol, creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol a chynllunio a threfnu.	Gweithio'n agos â thimoedd Blynyddoedd Cynnar ar draws Partneriaeth Canolbarth Cymru i sicrhau bod y cwricwlwm meithrin nas cynhelir yn cael ei gyflawni'n effeithiol.
Gweithio fel partneriaeth i wella dulliau o addysgu Ieithoedd Tramor Modern (ITM) a chynorthwyo i gynllunio'r ddarpariaeth Ieithoedd Rhyngwladol, yn ogystal â chyflwyno Iaith Arwyddion Prydain (IAP)	Integreiddio cynlluniau busnes Partneriaeth Canolbarth Cymru â chynlluniau gwella awdurdodau lleol i sicrhau bod y nodau strategol yn cydweddu â'i gilydd.

MAES BLAENORIAETH 2 ~ PRIORITY AREA 2

Maes Blaenoriaeth 2 Priority Area 2	Cefnogi a datblygu gweithlu addysg o'r radd flaenaf Support and develop excellent education professionals	
Cenhadaeth ein Cenedl Our National Mission	1. Cwricwlwm trawsnewidiol 2. Asesu, gwerthuso ac atebolrwydd 3. Proffesiwn addysg o safon uchel 4. Arweinwyr sy'n ysbrydoli 1. Transformational curriculum 2. assessment, evaluation and accountability 3. High quality education profession 4. Inspirational leaders	
Cyswllt â chynlluniau busnes lleol Link to local business plans	**Ceredigion:** Lefel 2 Gwella Ysgolion Lefel 3 Tegwch a Lles	**Powys:** Cynllun Busnes Integredig y Gwasanaeth Addysg 3a:13 Gweithredu a darparu ein cynllun i 'Adeiladu Capasiti i Wella Ysgolion a

		Darparu Cenhedaeth ein Cenedl ar gyfer Addysg' yn effeithiol.

Beth fydd ein gweithredoedd? What actions will we take?	Sut fyddwn ni'n arfarnu effaith? How will we evaluate impact?
Gweithio fel partneriaeth i ddarparu gwybodaeth amserol a mynediad at raglenni datblygu arweinyddiaeth a rhaglenni cynorthwywyr addysgu cenedlaethol	Monitro'r ddarpariaeth a'r cymorth ar gyfer ymgeiswyr â phrofiad addas sy'n gwneud cais am unrhyw raglenni arweinyddiaeth, cynorthwyydd addysgu neu lwybr gyrfa cynnar.
Gweithio fel partneriaeth i ddatblygu rhaglen ymsefydlu a chymorth mentora i Benaethiaid Newydd a Phenaethiaid Dros Dro	Gwerthusiad Kirkpatrick o'r rhaglen gymorth.
Gweithio fel partneriaeth i ddatblygu arweinwyr systemau ar bob lefel mewn ysgolion i redeg rhaglenni arweinyddiaeth LIDCA	Recriwtio a hyfforddi arweinwyr systemau sydd â phrofiad a chymwysterau addas
Gweithio fel partneriaeth i ddatblygu aseswyr CPCP a CALU	Recriwtio a hyfforddi arweinwyr systemau sydd â phrofiad a chymwysterau addas

Gweithio fel partneriaeth i gynllunio cyfnod sefydlu rhaglen dysgu proffesiynol genedlaethol/awdurdod lleol i gefnogi Athrawon Newydd Gymhwyso, Mentoriaid Sefydlu, Gwirwyr Allanol a gweithwyr Llwybr Gyrfa Cynnar	Cefnogi a chyfrannu at raglen genedlaethol ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso a Mentoriaid Sefydlu. Gwerthusiad Kirkpatrick o'r rhaglen gymorth.
Gweithio fel partneriaeth i ddatblygu Llwybr Gyrfa Cynnar ar gyfer ANG+5	Cefnogi a chyfrannu at raglen genedlaethol ar gyfer LlGC
Gweithio fel partneriaeth i ddatblygu cymorth datblygu proffesiynol rheolaidd ar gyfer Mentoriaid Sefydlu a Gwirwyr Allanol	Cefnogi a chyfrannu at raglen genedlaethol ar gyfer ANG a mentoriaid sefydlu. Gwerthusiad Kirkpatrick o'r rhaglen gymorth
Gweithio fel partneriaeth i ddatblygu cymorth sefydlu ar draws PCC mewn ymateb i ddiwygio'r rhaglen sefydlu	Recriwtio a hyfforddi arweinwyr systemau sydd â phrofiad a chymwysterau addas i weithio fel hyfforddwyr ar raglenni arweinyddiaeth
Gweithio fel partneriaeth i ddatblygu hyfforddiant a mentora.	Cynigir gwerthusiad Kirkpatrick o raglenni hyfforddiant

Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru
Mid Wales Education Partners

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Powys

Maes Blaenoriaeth 3 ~ Priority Area 3

Maes Blaenoriaeth 3 Priority Area 3	Cefnogi a datblygu gweithlu addysg o'r radd flaenaf Support and develop excellent education professionals	
Cenhadaeth ein Cenedl Our National Mission	5. Cwricwlwm trawsnewidiol 6. Asesu, gwerthuso ac atebolrwydd 7. Proffesiwn addysg o safon uchel 8. Arweinwyr sy'n ysbrydoli 5. Transformational curriculum 6. assessment, evaluation and accountability 7. High quality education profession 8. Inspirational leaders	
Cyswllt â chynlluniau busnes lleol Link to local business plans	**Ceredigion:** Lefel 2 Gwella Ysgolion Lefel 3 Tegwch a Lles	**Powys:** Cynllun Busnes Integredig y Gwasanaeth Addysg 3a:13

		Datblygu a pharhau i fonitro defnydd effeithiol o'r Grant Datblygu Disgyblion (GDD). 3a:8 Sicrhau bod pobl ifanc oedran ysgol yn cael mynediad at wasanaethau cwnsela o ansawdd da i hyrwyddo eu hiechyd a'u lles emosiynol. 3a:6

Beth fydd ein gweithredoedd? What actions will we take?	Sut fyddwn ni'n arfarnu effaith? How will we evaluate impact?
Gweithio fel partneriaeth i gynllunio, hyrwyddo a darparu dysgu proffesiynol ac adnoddau i ysgolion i sicrhau ymagwedd ysgol gyfan tuag at lesiant	Monitro presenoldeb ac ymgysylltiad â chyfleoedd dysgu proffesiynol 'byw'.
Gweithio fel partneriaeth i gynorthwyo Hyrwyddwyr Hyfforddi Emosiynau i sicrhau achrediad, hyfforddi ysgolion neu leoliadau eraill, a datblygu hyfforddiant ac adnoddau ar gyfer amrywiaeth eang o ysgolion a lleoliadau	Gwerthuso effaith dysgu proffesiynol gan ddefnyddio dull cadarn seiliedig ar ymchwil e.e model Kirkpatrick neu hunanwerthuso
Gweithio fel partneriaeth i sicrhau cyswllt effeithiol ag asiantaethau allanol i ddatblygu pob maes lles a thegwch, gan gynorthwyo ysgolion i nodi cymorth aml-asiantaeth priodol.	Triongli effaith dysgu proffesiynol a dull ysgol gyfan o gynnig cymorth lles gydag ymweliadau cyngor gwella ysgolion.

Gweithio fel partneriaeth i sicrhau bod 'Fframwaith ar Sefydlu Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol' Llywodraeth Cymru yn cael ei weithredu ymhob ysgol	Monitro a gwerthuso effaith canlyniadau gweithgor llesiant traws-ranbarthol
Gweithio fel partneriaeth i rannu a hyrwyddo iechyd meddwl a lles emosiynol, gan nodi arferion presennol effeithiol a lledaenu arfer ar draws ysgolion, gan gynnwys ymarfer effeithol ym maes cymorth ymddygiad a phresenoldeb	Triongli effaith dysgu proffesiynol gydag ymweliadau cyngor gwella ysgolion.
Gweithio fel partneriaeth i ddatblygu strategaeth i gynorthwyo ysgolion sy'n profi amddifadedd gwledig, a thaclo tlodi ar draws Partneriaeth Canolbarth Cymru.	Darparu cyfleoedd rheolaidd i rannu gwybodaeth ac adnoddau rhwng Partneriaeth Canolbarth Cymru
Gweithio fel partneriaeth i gefnogi grwpiau dysgwyr agored i niwed, gan ddatblygu dull o gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn	Gwerthuso data ac adborth holiadur lles Partneriaeth Canolbarth Cymru
	Gweithio'n agos gydag asiantaethau a darparwyr allanol i sicrhau bod cymorth effeithiol ar gael
	Monitro adnoddau i sicrhau eu bod yn gyd-fynd â blaenoriaeth LIC o fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad, gan bwysleisio pwysigrwydd tegwch
	Rhannu ymchwil a gwerthuso effaith arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, i gefnogi grwpiau dysgwyr agored i niwed.

Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru
Mid Wales Education Partners

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Powys

Maes Blaenoriaeth 4 ~ Priority Area 4

Maes Blaenoriaeth 4 Priority Area 4	Cefnogi a datblygu gweithlu addysg o'r radd flaenaf Support and develop excellent education professionals
Cenhadaeth ein Cenedl Our National Mission	1. Cwricwlwm trawsnewidiol 2. Asesu, gwerthuso ac atebolrwydd 3. Proffesiwn addysg o safon uchel 4. Arweinwyr sy'n ysbrydoli 1. Transformational curriculum 2. assessment, evaluation and accountability 3. High quality education profession 4. Inspirational leaders

Cyswllt â chynlluniau busnes lleol Link to local business plans	**Ceredigion:** Lefel 2 Gwella Ysgolion	**Powys:** Cynllun Busnes Integredig y Gwasanaeth Addysg 3a:13 Cyflawni'r Strategaeth Ysgolion Uwchradd gan sicrhau effaith gadarnhaol ar arweinyddiaeth, addysgu a dysgu gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol. 3a:11 Gwella canlyniadau disgyblion mewn ysgolion uwchradd 3a:1 Gweithredu a chyflenwi ein cynllun i 'Adeiladu Capasiti i Wella Ysgolion a Darparu Cenhedaeth ein Cenedl ar gyfer Addysg' yn effeithiol. 3a:16 Gweithredu system gydgysylltiedig i gefnogi plant a phobl ifanc ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)/ Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) i wella eu profiadau a'u deilliannau erbyn 2024 3a:3

Beth fydd ein gweithredoedd? What actions will we take?	Sut fyddwn ni'n arfarnu effaith? How will we evaluate impact?

Gweithio fel partneriaeth, creu strategaeth cefnogi a gwella ysgolion i gwrdd â'r newidiadau sylweddol sy'n wynebu ysgolion, fel ffordd o'u cefnogi trwy gyfnod o drawsnewid. Sicrhau bod y strategaeth yn cefnogi egwyddorion ac arferion y cwricwlwm newydd a'r ddeddf ADY, ac yn creu'r newidiadau sylweddol i'r system a'r diwylliant sydd eu hangen er mwyn i'r cwricwlwm newydd a'r ddeddf ADY lwyddo, gan helpu i godi safonau ar gyfer pawb.	Monitro cynnydd pob ysgol wrth roi rhaglenni cenedlaethol ar waith.
Gweithio fel partneriaeth i ddatblygu diwylliant dysgu sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus, gyda'r nod o wireddu'r pedwar diben, gan ddefnyddio arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth i arloesi a gwella	Bydd y cymorth a roir i ysgolion i weithredu rhaglenni cenedlaethol yn gymesur â'u hangen.
Gweithio fel partneriaeth i gryfhau dysgu proffesiynol ar gyfer datblygu ymarfer a myfyrio, drwy Gynllun Cydweithredol Cymru ar gyfer Cynllunio Dysgu, Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu, a'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth	Monitro Cynlluniau Datblygu Ysgol i sicrhau bod yna gynnydd priodol i fynd i'r afael â blaenoriaethau'r ysgol.
Gweithio fel partneriaeth i greu cynnig dysgu proffesiynol cynhwysfawr i fodloni gofynion ysgolion a chyrff llywodraethu.	Ymweliadau cymorth rheolaidd i arfarnu effeitholrwydd y prosesau hunanarfarnu.
Gweithio fel partneriaeth i gynorthwyo ysgolion i - gyd-drefnu hunanarfarnu a gwella ysgolion fel proses integredig, bod yn fyfyriol, agored a gonest, gan fyfyrio ar, a mireinio gweithgareddau hunanarfarnu – defnyddio data mewn ffordd gymesur ochr yn ochr â thystiolaeth uniongyrchol, gan grynhoi amryw o ddulliau gwahanol o gasglu tystiolaeth ddibynadwy, sicrhau bod yr arfarnu ar gyfer, ac yn ymwneud â'r ysgol a'i dysgwyr, cynnwys a gwrando ar yr holl staff, dysgwyr, rhieni/gofalwyr, llywodraethwyr a rhanddeiliaid eraill – adolygu	Triongli effaith dysgu proffesiynol gydag ymweliadau cyngor gwella ysgol.

cynnydd yn erbyn blaenoriaethau gwella, gan gadw at, ac adeiladu ar arfer presennol ac effeithiol	
Gweithio fel partneriaeth i rannu arfer effeithiol o fewn a rhwng ysgolion, gan weithio gyda chymheiriaid i gefnogi eu harfer eu hunain ac arfer eraill	Craffu astudiaethau achos o arfer da i sicrhau dulliau gweithredu cadarn a chyson.
Gweithio fel partneriaeth i greu pecynnau cymorth addas a phwrpasol ar gyfer pob ysgol i gynnal a chodi safonau.	Gweithredu'r Strategaeth Cynorthwyo a Gwella Ysgolion yn effeithiol.
Gweithredu fel partneriaeth i sicrhau cynnydd cadarn a chynaliadwy mewn ysgolion sy'n peri pryder.	Monitro cynnydd llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol dysgwyr.
Parhau i weithio fel partneriaeth i rannu arbenigedd ac arfer da, sicrhau gwerth am arian a lleihau llwythi gwaith.	Monitro a gwerthuso cynnydd ysgolion sy'n peri pryder drwy Fyrddau Gwella Ysgolion ac adroddiadau cynnydd Cynghorwyr Ysgolion.

Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru
Mid Wales Education Partners

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Powys

Maes Blaenoriaeth 5 ~ Priority Area 5

Maes Blaenoriaeth 5 Priority Area 5	Sicrhau trefniadau mewnol effeithlon, a chyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol gyda rhan-ddeiliaid Ensure efficient internal arrangements, and effective communication and engagement with stakeholders
Cenhadaeth ein Cenedl Our National Mission	1. Cwricwlwm trawsnewidiol 2. Asesu, gwerthuso ac atebolrwydd 3. Proffesiwn addysg o safon uchel 4. Arweinwyr sy'n ysbrydoli 1. Transformational curriculum 2. assessment, evaluation and accountability 3. High quality education profession

	4. Inspirational leaders	
Cyswllt â chynlluniau busnes lleol Link to local business plans	**Ceredigion:** Lefel 1 Gwasanaeth Ysgolion a Diwylliant	**Powys:** Cynllun Busnes Integredig y Gwasanaeth Addysg 3a:13 Sicrhau bod data'n cael ddefnyddio'n effeithiol i nodi meysydd i'w gwella ymhellach ac i lywio penderfyniadau. 3a:15 Adeiladu prosesau hunanarfarnu i sicrhau gwelliant parhaus. 3a:16

Beth fydd ein gweithredoedd? What actions will we take?	Sut fyddwn ni'n arfarnu effaith? How will we evaluate impact?
Sefydlu a gweithredu strategaeth gyfathrebu glir a rheolaidd gydag ysgolion i sicrhau bod gwybodaeth a diweddariadau yn amserol ac yn gyson ar draws y ddau Awdurdod Lleol.	Mae arolygon Penaethiaid ac adborth yn dangos bod ysgolion yn teimlo eu bod yn derbyn gwybodaeth ddigonol, mae negeseuon cyson ar adegau priodol yn galluogi staff ysgolion i weithredu ar gyngor a chael mynediad at ddysgu proffesiynol priodol.
Sefydlu gwefan Dysgu Proffesiynol ar y cyd i sicrhau bod aelodau staff pob ysgol yn gwybod am y cynnig ac yn cael mynediad hwylus ato ar draws Canolbarth Cymru.	Yn y bôn mae pob ysgol ar draws Partneriaeth Canolbarth Cymru'n cael mynediad at y cynnig dysgu proffesiynol ar y cyd drwy gyfrwng un platfform.

Yn unol â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, sicrhau cyfarfodydd tymhorol ar y cyd rhwng y ddau arweinydd portffolio addysg, a chyflwyno adroddiad blynyddol cynhwysfawr i'r ddau Bwyllgor Craffu yn nhymor y Gwanwyn. Sicrhau bod Cynllun Busnes 2022-23 y cael ei drafod a'i gytuno gydag aelodau'r pwyllgorau Craffu yn dilyn etholiadau mis Mai.	Adrodd yn effeithiol ar flaenoriaethau busnes gyda'r pwyllgorau craffu ac aelodau.
Penodi swyddog strategaeth i gydlynu a datblygu gwaith Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru ymhellach.	Un uwch arweinydd yn cydlynu gwaith Partneriaeth Canolbarth Cymru ac yn mynychu cyfarfodydd MD. Bydd yr unigolyn yma'n sefydlu ac yn arwain y grŵp cyfeirio penaethiaid ac yn sicrhau bod yna benderfyniadau effeithiol, i wneud yn siŵr bod y Bartneriaeth yn parhau i ddatblygu ac yn cael effaith gadarnhaol ar ein hysgolion a'u dysgwyr.
Sefydlu grŵp cyfeirio Penaethiaid ar gyfer Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru.	
Parhau i ddatblygu cydweithio cadarnhaol mewn pethynas â gwaith traws-ranbarthol a mynediad at wybodaeth a rhaglenni angenrheidiol er budd ysgolion a dysgwyr	